



# **Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog**

**Adroddiad Blynyddol ar**

**Gynllun Corfforaethol 2017/18**

---

## Cynnwys

<b>1. Rhagair</b> .....	2
<b>2. Cyflwyniad</b> .....	3
<b>3. Adrodd am Gyflawni</b> .....	5
<b>4. Casgliad</b> .....	15
Atodiad A – Meincnodi Parciau Cenedlaethol Cymru .....	16

## I. Rhagair

Croeso i'n Hadroddiad Blynyddol ar gyfer y flwyddyn ariannol ddiwethaf (mis Ebrill 2017 i fis Mawrth 2018), sy'n edrych yn ôl ar sut rydym wedi perfformio yn ôl ein hamcanion gwella yn ein pedwar maes blaenoriaeth.

Rwyf yn hapus i gyhoeddi drwy ymroddiad ein staff, gwirfoddolwyr a phartneriaid, rydym wedi gwneud cynnydd da ar draws ein pedwar maes blaenoriaeth: treftadaeth, tirweddau a bioamrywiaeth, cymunedau gwydn, a datblygu economaidd cynaliadwy.

O ran treftadaeth, rydym wedi cyflawni ein targedau gosodedig yn ymwneud â diogelu archaeoleg y parc a chadwraeth adeiladau mwyaf bregus y parc. Gwnaethom gynnal 'Diwrnod Treftadaeth' llwyddiannus yn Theatr Brycheiniog, gan groesawu amrywiaeth o siaradwyr gwadd a dynnodd sylw at bwysigrwydd ein treftadaeth adeiledig a'r rheini a oedd â diddordeb yn y pwnc o fewn y Parc Cenedlaethol.

O ran tirwedd a bioamrywiaeth, rydym wedi parhau gyda'n gwaith o leihau allyriadau carbon ar dir ac o adfer cynefinoedd ucheldir. Mae Partneriaeth Defnydd Tir y Mynydd Du yn brosiect rheoli tir cynaliadwy blaenllaw ac mae'n dangos manteision gweithio ar y cyd ond rydym yn gwybod bod cymaint mwy i'w wneud.

Rydym wedi darparu dros £200,000 o fuddsoddiad i amrediad eang o brosiectau cymunedol drwy'r Gronfa Datblygu Cynaliadwy ac rydym yn parhau i gymryd camau gweithredu mewn perthynas â Datganiad Iechyd a Llesiant Parciau Cenedlaethol Cymru, ac mae'r gwaith hwn yn gwneud cyfraniad pwysig tuag at wydnwch parhaus ein cymunedau.

O ran datblygu economaidd cynaliadwy, rydym wedi denu cyllid i wella'r profiad a seilwaith i ymwelwyr a gwella dehongli mewn lleoliadau penodol o fewn y parc. Gwnaethom hefyd lwyddo, ar y cyd â'n partneriaid, i ennill digon o bleidleisiau i gael ein dyfarnu fel 'Cyrchfan Gorau Cymru' yn y Gwobrau Twristiaeth Cenedlaethol.

Mae rhai meysydd lle nad ydym wedi gwneud y cynnydd a ddymunir ac rydym wedi nodi ein rhesymau dros hyn a hefyd wedi nodi sut y byddwn ni'n gweithio i fynd i'r afael â'r heriau hyn.

Gan edrych tua'r dyfodol, rydym yn wynebu heriau pellach o ran gwydnwch y sector cyhoeddus, y canlyniadau sy'n deillio o Brexit ac, wrth gwrs, y newid yn yr hinsawdd. Byddwn yn parhau i chwarae ein rhan wrth fynd i'r afael â'r heriau hyn drwy weithio mewn partneriaeth gydag eraill i sicrhau bod ein cymunedau a'r dirwedd sy'n eu cynnal yn parhau'n llewyrchus.

I gloi, hoffwn ddiolch i'n partneriaid niferus a thalu teyrnged hefyd i'n holl wirfoddolwyr y mae eu gwaith caled yn ein cynorthwyo i gyflawni ein hamcanion.

Cofion gorau



Cadeirydd

Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog

## 2. Cyflwyniad

2.2 Mae Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog yn falch o gyhoeddi ei Adroddiad Blynyddol ar y gwaith o gyflawni'r Cynllun Corfforaethol ar gyfer y flwyddyn sy'n dod i ben ar 31 Mawrth 2018. Gellir dod o hyd i'r Cynllun Corfforaethol, a gyhoeddwyd ym mis Ebrill 2017, ar wefan yr awdurdod ar:

<http://www.bannaubrycheiniog.org/yr-awdurdod/amdanom-ni/our-vision/adroddiad-blynyddol-a-chynllun-gwella-blynyddol/>

2.3 Mae Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog wedi'i ddynodi o dan Ddeddf yr Amgylchedd 1995. Mae Adran 61 y Ddeddf hon yn amlinellu dau ddiben y parc fel a ganlyn:

1. *'cadw a gwella harddwch naturiol, bywyd gwyllt a threftadaeth ddiwylliannol y Parciau Cenedlaethol'*
2. *'hybu cyfleoedd ar gyfer dealltwriaeth a mwynhad y cyhoedd o'r rhinweddau arbennig'*

Gan fynd ar drywydd ei ddau ddiben statudol, mae gan Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog ddyletswydd i wneud yr isod:

*'ceisio meithrin llesiant economaidd a chymdeithasol cymunedau lleol o fewn y Parc Cenedlaethol drwy weithio'n agos gyda'r asiantaethau ac awdurdodau lleol sy'n gyfrifol am y materion hyn'*

2.4 Mae'r adroddiad hwn yn ystyried cynnydd Awdurdod y Parc Cenedlaethol yn erbyn y Meysydd Gwaith Allweddol a nodwyd yn y Cynllun Corfforaethol. Mae'r adroddiad hwn hefyd yn amlinellu cyfraniad yr awdurdod at gyflawni Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a chyflawni ei ddyletswydd gyffredinol o dan Fesur Llywodraeth Leol Llywodraeth Cymru.

2.5 Mae'r Cynllun Corfforaethol hefyd yn cyflwyno'r golwg blynyddol ar gyflawni yn ôl Cynllun Rheoli'r Parc Cenedlaethol 2015–2020, sy'n amlinellu rhaglen waith uchelgeisiol dros gyfnod o bymtheg mlynedd.

2.6 Cynllun Rheoli'r Parc Cenedlaethol yw'r pwynt cyfeirio canolog ar gyfer ein holl ddogfennau strategol. Cafodd ei lunio mewn ymgynghoriad â rhanddeiliaid, tirfeddianwyr a chymunedau ledled y parc ac mae'n nodi camau gweithredu o dan chwe thema. Yn 2011, gwnaeth yr awdurdod alinio ei nodau ac amcanion corfforaethol, a oedd yn gosod y cyd-destun ar gyfer y Cynllun Corfforaethol, i'r chwe thema o'r Cynllun Rheoli fel y dangosir yn Ffigur 1 isod.

## Themâu'r Cynllun Rheoli

<b>Thema 1:</b> Rheoli Tirluniau'r Parc i Sicrhau'r Manteision Cadwraeth a Chyhoeddus Mwyaf	<b>Pwrpas Iaf</b>
<b>Thema 2:</b> Gwarchod a Gwella Bioamrywiaeth	
<b>Thema 3:</b> Darparu Cyfleoedd i Hamddena a Mynd Allan i'r Awyr Agored er Budd Iechyd a Lles	<b>Zil Bwrpas</b>
<b>Thema 4:</b> Gwella Ymwybyddiaeth a Dealltwriaeth o'r Parc	
<b>Thema 5:</b> Creu a Chynnal Cymunedau, Trefi a Phentrefi Cynaliadwy	<b>Dyletswydd</b>
<b>Thema 6:</b> Datblygu Economaidd Cynaliadwy	

*Ffigur 1: Chwe Thema o Gynllun Rheoli 2015–20*

2.7 Mae'r Cynllun Rheoli yn ddogfen ar gyfer y parc i gyd tra bo'r Cynllun Corfforaethol yn benodol i berfformiad yr awdurdod ei hun. Mae'r chwe thema o'r Cynllun Rheoli yn cael eu cwmpasu gan bedwar Maes Gwaith Allweddol, y mae'r Cynllun Corfforaethol yn eu defnyddio i nodi amcanion llesiant. Y pedwar Maes Gwaith Allweddol yw:

<b>Maes Gwaith Allweddol</b>	<b>Sut mae'r Maes Gwaith Allweddol yn berthnasol i'r saith amcan llesiant</b>
1. Treftadaeth	Mae gan Barc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog dreftadaeth hanesyddol a diwylliannol gref. Drwy ganolbwyntio ar dreftadaeth, rydym yn sicrhau cyfraniad uniongyrchol i ' <b>Gymru sydd â diwylliant bywiog ac iaith Gymraeg ffyniannus' ac sy'n 'gyfrifol ar lefel fyd-eang'</b> .
2. Tirwedd a bioamrywiaeth	Drwy ganolbwyntio ar dirweddau a bioamrywiaeth, yn arbennig drwy reoli ecosystemau, mae'r awdurdod yn cyfrannu'n uniongyrchol at ' <b>Gymru sy'n fwy gwydn'</b> .
3. Cymunedau gwydn	Gall cymunedau cryf o fewn y Parc Cenedlaethol a gweithgareddau corfforol hygyrch ar gyfer cymunedau y tu allan i'r parc wella teimladau o lesiant, lleihau straen a bod yn ysbrydoledig. Drwy hyrwyddo gweithgaredd, annog gwirfoddolwyr, a chefnogi'r rheini gyda chyfyngiadau corfforol, economaidd neu eraill, mae'r amcan hwn yn cyfrannu'n uniongyrchol at ' <b>Gymru o gymunedau cydlynol'</b> , ' <b>Cymru iachach'</b> a ' <b>Chymru fwy cyfartal'</b> .
4. Datblygu economaidd cynaliadwy	Yn cyfrannu'n uniongyrchol at ' <b>Gymru lewyrchus'</b> a ' <b>Chymru wydn'</b> drwy annog datblygu busnesau newydd a phresennol a chynyddu'r nifer o swyddi wrth beidio â chefnogi defnydd anghynaliadwy o adnoddau naturiol. Dylai cynnydd mewn cyflogaeth gefnogi ' <b>Cymru fwy cyfartal'</b> a ' <b>Chymru iachach'</b> .

*Ffigur 2: Sut mae'r pedwar Maes Gwaith Allweddol yn berthnasol i'r saith amcan llesiant*

2.8 Gallwch ddod o hyd i fwy o wybodaeth am Awdurdod y Parc Cenedlaethol a lawrlwytho'r adroddiad hwn o'n gwefan yn <http://www.bannaubrycheiniog.org/> neu gallwch ofyn am gopi papur drwy ffonio 01874 624437.

2.9 Mae'n ofynnol i Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog gydymffurfio â safonau penodol yn ymwneud â'r Gymraeg drwy Hysbysiad Cydymffurfiaeth a baratowyd gan Gomisiynydd y Gymraeg. Gellir dod o hyd i'r safonau ac adroddiadau cysylltiedig Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog ar ein gwefan yn y cyfeiriad canlynol:

<http://www.bannaubrycheiniog.org/yr-awdurdod/amdanom-ni/polisiau-a-datganiadau/cynllun-yr-iaith-gymraeg/>.

2.10 Mae gwybodaeth arall y mae'r awdurdod yn ei rhoi yn y parth cyhoeddus yn rheolaidd yn cael ei chyhoeddi yn ei Gynllun Cyhoeddi, y gellir ei weld yma:

<http://www.bannaubrycheiniog.org/yr-awdurdod/amdanom-ni/ein-polisiau-an-gweithdrefnau/cynllun-cyhoeddi/>

2.11 Os hoffech chi gael unrhyw wybodaeth ychwanegol ar y Cynllun Gwella neu os hoffech awgrymu meysydd gwaith lle y mae angen gwelliant arnom, ysgrifennwch at Mr Julian Atkins, Prif Weithredwr, Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog, Plas y Ffynnon, Ffordd Cambrian, Aberhonddu, Powys, LD3 7HP, neu e-bostiwch [improvements@beacons-npa.gov.uk](mailto:improvements@beacons-npa.gov.uk).

### **3. Adrodd am Gyflawni**

Mae ein perfformiad yn erbyn y pedwar Maes Gwaith Allweddol wedi'i amlinellu isod. Mae rhai gweithgareddau'n cwmpasu blynyddoedd adrodd/ariannol lluosog a, lle y bo hynny'n wir, bydd y targed yn gyffredinol i ddatblygu'r gweithgaredd hyd at bwynt penodol o fewn y flwyddyn. Bydd y canlyniadau gwirioneddol yn dangos a ydym wedi gwireddu'r hyn y gwnaethom geisio ei gyflawni ac mae'r rhain yn defnyddio system codio lliw fel a ganlyn:

**Gwyrdd: wedi cyflawni neu ragori ar y targed**

**Oren: ychydig bach yn brin o'r targed**

**Coch: yn sylweddol brin o'r targed**

### 3.1 Treftadaeth

Mae gan Barc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog dreftadaeth hanesyddol a diwylliannol gref. Drwy ganolbwyntio ar dreftadaeth, rydym yn sicrhau cyfraniad uniongyrchol i '**Gymru sydd â diwylliant bywiog ac iaith Gymraeg ffyniannus**'.

Yr hyn y gwnaethom geisio ei gyflawni		Yr hyn a gyflawnwyd gennym			
Amcan/Cam gweithredu llesiant	Targed 2017/18	Gwirioneddol 2017/18	Sylwebaeth	Targed 2016/17	Gwirioneddol 2016/17
Byddwn ni'n amddiffyn a gwella archaeoleg y parc drwy ymgymryd â mesurau cadwraeth cadarnhaol ar o leiaf ddwy Heneb Gofrestredig.	2	3	Gwaith cadwraeth Fan Foel Castell y Gelli Clirio rhedyn Cefnen Hatterrall Nifer o brosiectau eraill, gan gynnwys monitro gwirfoddolwyr yn cofnodi safleoedd	2	4
Byddwn yn cadw a gwella adeiladau rhestredig mwyaf bregus y parc drwy leihau nifer yr adeiladau ar y gofrestr 'Adeiladau mewn perygl' o dri.	3	6	Y % o adeiladau a oedd fwyaf mewn perygl (cyfradd un yn berygl eithafol, dau yn berygl difrifol, a thri mewn perygl) ar adeg arolwg 2015 oedd 9.3% neu 181 o adeiladau. Mae chwe adeilad a nodwyd mewn ymweliadau safle diweddar y gellir eu gwaredu o'r tri chategori gwaethaf. Mae hyn yn dod â'r cyfanswm i lawr i 175 o adeiladau ac felly 9% mewn perygl.	3	0

Yr hyn y gwnaethom geisio ei gyflawni		Yr hyn a gyflawnwyd gennym			
Amcan/Cam gweithredu llesiant	Targed 2017/18	Gwirioneddol 2017/18	Sylwebaeth	Targed 2016/17	Gwirioneddol 2016/17
Byddwn ni'n ymateb mewn ffordd amserol i o leiaf 75% o'r ymgynghoriadau ar gynllunio, caniatâd adeilad rhestredig a cheisiadau perthnasol eraill.	75%	53%	Nifer llai o staff yn sgil salwch hirdymor o fewn tîm bach. Gwnaeth y ffigur wella pan roddwyd rhywun newydd mewn swydd.	75%	38%
Byddwn ni'n adolygu ardaloedd gadwraeth Crucywel a Llangatwg.	2	0	Dechreuwyd ar y gwaith adolygu ar gyfer y ddwy ardal gadwraeth ond, yn sgil y broblem uchod (llai o staff), ni chafodd ei gwblhau yn ystod y flwyddyn ariannol hon. Mae bellach yn flaenoriaeth i'r tîm treftadaeth gwblhau'r gwaith hwn.	Adolygu tair ardal gadwraeth	3
Byddwn ni'n cwblhau arfarniad ar gyfer un ardal gadwraeth newydd o fewn ardal y parc.	1	0	Cynhaliwyd cyfarfodydd gyda thri chyngor tref/cymuned o fewn y parc (Myddfai/Llanigon/Llanfihangel) ac roeddent i gyd yn gwrthwynebu'r syniad. Paratowyd adroddiad ar gyfer Awdurdod y Parc Cenedlaethol er mwyn ystyried ffordd ymlaen.	2	2



### 3.2 Tirweddau a Bioamrywiaeth

Drwy ganolbwyntio ar dirweddau a bioamrywiaeth, yn arbennig drwy reoli ecosystemau, mae'r awdurdod yn cyfrannu'n uniongyrchol at 'Gymru fwy gwydn'.

Yr hyn y gwnaethom geisio ei gyflawni		Yr hyn a gyflawnwyd gennym			
Amcan/Cam gweithredu llesiant	Targed 2017/18	Gwirioneddol 2017/18	Sylwebaeth	Targed 2016/17	Gwirioneddol 2016/17
<p><b>Lleihau allyriadau carbon ar dir ac adfer cynefinoedd ucheldir</b></p> <p>Ymgymryd â phrosiectau adfer mawn i sicrhau cadwraeth bioamrywiaeth ac adfer tirwedd, wrth gyfrannu at Gynllun Rheoli Geoparc Byd-eang UNESCO Fforest Fawr</p>	<p>4:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>- Y Mynydd Du (Sir Fynwy / Sir Frycheiniog)</li> <li>- Y Bannau Canolog</li> <li>- Fforest Fawr</li> <li>- Y Mynydd Du (Sir Gaerfyrddin)</li> </ul>	3	<p><b>Y Mynydd Du (Sir Fynwy / Sir Frycheiniog)</b> – Yr holl brosiectau mawndir ac adeiladu llwybrau a amserlennwyd ar gyfer eu cyflawni yn ystod 2017–18 wedi'u cwblhau mewn da bryd ac o fewn y gyllideb; cyflwynwyd adroddiadau i Uned Rheoli Cynlluniau Llywodraeth Cymru. Roedd y gwaith yn cynnwys torri pedwar hectar o lystyfiant i wella'r strwythur cynefin a defnyddio'r sgil-gynhyrchion ar gyfer gwaith amddiffyn mawn mewn mannau eraill, blocio 0.8 km o ffosydd rhostir, a chreu/adfer 1,100m o lwybrau ucheldir.</p> <p><b>Y Bannau Canolog</b> – Rydym yn aros i gadarnhau'r gwaith i'w wneud yma, yn seiliedig ar flaenoriaethau Prosiect Mawndiroedd Cymru. Rydym yn parhau i weithio gyda Phrosiect Mawndiroedd Cymru i nodi safleoedd adfer sy'n gymwys o dan feini prawf y prosiect. Derbyniwyd cyllid gan Lywodraeth Cymru hefyd ar gyfer gwaith gwarchod mawndir ac adeiladu llwybrau ar Garn Pica, a fydd yn cael ei amserlennu ar gyfer 2019–20.</p> <p><b>Fforest Fawr</b> – Wedi cyflenwi amrywiaeth o</p>	Cynnydd ar y rhaglen adfer mawndir.	Wedi gwneud cynnydd y tu hwnt i'r disgwyl.

Yr hyn y gwnaethom geisio ei gyflawni		Yr hyn a gyflawnwyd gennym			
Amcan/Cam gweithredu llesiant	Targed 2017/18	Gwirioneddol 2017/18	Sylwebaeth	Targed 2016/17	Gwirioneddol 2016/17
			argaeau athraidd ac amddiffyn mawn moel mewn ceunentydd erydu bas, yn ogystal â chomisiynu arolwg hydrolegol o'r gors i ddeall effeithiau amddiffyn mawn ar hydroleg y safle. <b>Y Mynydd Du (Sir Gaerfyrddin)</b> – Wedi cwblhau'r flwyddyn olaf o brosiectau cyfalaf Glastir ar ardaloedd sefydliadau Tir Comin Glastir.		
Gweithredu <b>ATA Gwlad y Sgydau</b> gyda Cyfoeth Naturiol Cymru ac ymgymryd â gwelliannau i faes parcio Gwaun Hepste, gan gynnal a datblygu cysylltiadau â'r gymuned leol a'i busnesau.	2: - Gweithredu'r ATA - Gwelliannau maes parcio	2	Ail adolygiad blynyddol o'r ATA wedi'i amserlennu ar gyfer mis Mai 2018. Yn ychwanegol, mae gwaith ehangach yn mynd rhagddo gyda thimau rheoli eraill y gyfarwyddiaeth, ond nid yw'r gost adfer lawn ar gyfer hyn wedi'i gynnwys yn yr ATA.	Gwneud cynnydd mewn pedwar maes gwaith Prosiect Rheoli, Tir gan gynnwys Gwlad y Sgydau	Wedi gwneud cynnydd y tu hwnt i'r disgwyl
<b>Cynllun Rheoli Cynaliadwy Partneriaeth Defnydd Tir y Mynydd Du</b> Gweithredu'r rhaglen weithredu a gymeradwywyd gan Lywodraeth Cymru, yr ydym yn bartner arweiniol iddi, yn ystod y flwyddyn ariannol hon.	Gweithredu'r camau a amserlennwyd ar gyfer y flwyddyn ariannol	Gweithredwyd y camau a chyflwynwyd adroddiad	Adroddiad cynnydd llawn wedi'i gyflwyno i Uned Rheoli Cynlluniau Llywodraeth Cymru ym mis Ionawr 2018 ar ran Partneriaeth Defnydd Tir y Mynydd Du. Bu'r canolbwynt diweddar ar gwblhau tendrau ar gyfer dechrau elfennau rheoli rhedyn yn ystod 2018, gan gynnwys datrys problemau ynglŷn â phrynu peiriannau a chael contractwyr y Portffolio Nawdd TWE ar waith. Mae holl elfennau'r prosiect bellach ar waith,	Gwneud cynnydd ar y bartneriaeth	Wedi gwneud cynnydd

Yr hyn y gwnaethom geisio ei gyflawni		Yr hyn a gyflawnwyd gennym			
Amcan/Cam gweithredu llesiant	Targed 2017/18	Gwirioneddol 2017/18	Sylwebaeth	Targed 2016/17	Gwirioneddol 2016/17
			gyda rhai newidiadau anochel i amserlenni cyflenwi.		
<b>Rhaglen ymchwil a phartneriaethau ymchwil strategol</b> Cynnal cynhadledd ymchwil Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog ar y cyd â Phrifysgol De Cymru gyda phartneriaid ymchwil strategol.	Cynnal digwyddiad ar y cyd	Cwblhawyd	Gweithdy ymchwil dilynol hyd yn oed yn fwy llwyddiannus wedi'i drefnu gan y Cynllun Partneriaeth. Yn canolbwyntio ar anghenion ymchwil yn unig ar gyfer Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog, yn seiliedig ar y pedwar Maes Gwaith Allweddol (treftadaeth, tirwedd a bioamrywiaeth, cymunedau gwydn, datblygu economaidd cynaliadwy). Pobl wedi mynychu o Brifysgol De Cymru, Prifysgol Caerdydd, Prifysgol Abertawe, Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant, Amgueddfa Cymru, Prifysgol Reading, Prifysgol Metropolitan Caerdydd, Cyfoeth Naturiol Cymru, Cymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Powys, Bwrdd Iechyd Addysgu Powys. Wedi nodi cynigion a themâu ymchwil ar gyfer pob un o'r Meysydd Gwaith Allweddol, i'w cynnwys a'u datblygu yn y rhaglen ymchwil newydd ar gyfer Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog, i olynu'r Prosbectws Ymchwil. Mae'r rhaglen ymchwil hon yn boblogaidd iawn ac mae arni angen cyfeiriad a rheoli llawn amser. Yn ogystal â'r myfyrwyr PhD newydd yn dechrau, gallwn hefyd frolio am daith Clare Parsons gyda Phrifysgol Caerdydd, gyda'r holl	Amherthnasol	Amherthnasol

Yr hyn y gwnaethom geisio ei gyflawni		Yr hyn a gyflawnwyd gennym			
Amcan/Cam gweithredu llesiant	Targed 2017/18	Gwirioneddol 2017/18	Sylwebaeth	Targed 2016/17	Gwirioneddol 2016/17
			dreuliau wedi'u talu, i Falaysia ddechrau mis Rhagfyr i gynghori ar ymchwil cydnerthedd gwledig yno.		

<p><b>Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol (Cynllun Adfer Natur Lleol)</b>  Cwblhau'r cytundeb gyda phartneriaid lleol a rhanbarthol ar amcanion a ffynonellau cyllid ar gyfer y Cynllun Adfer Natur Lleol</p>	<p>Y cytundeb wedi'i gwblhau</p>	<p>Y tu ôl i'r amserlen</p>	<p>Cafodd fersiwn gyntaf y Cynllun Gweithredu Adfer Natur ei drafftio a gwnaed sylwadau arni yn fewnol; mae'n cael ei hadolygu ar hyn o bryd. Er mwyn cyflawni dyletswydd yr awdurdod o ran gwydnwch ecosystemau a chadwraeth bioamrywiaeth, mae llawer yn dibynnu ar lwyddiant y cynllun hwn o ran ei ffocws ac, yn arbennig, o ran ymrwymiad corfforaethol gwirioneddol gan Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog a sefydliadau allweddol eraill (y sector cyhoeddus, cyrff anllywodraethol, cyfleustodau).</p>	<p>Amherthnasol</p>	<p>Amherthnasol</p>
--	----------------------------------	-----------------------------	---	---------------------	---------------------

Yr hyn y gwnaethom geisio ei gyflawni		Yr hyn a gyflawnwyd gennym			
Amcan/Cam gweithredu llesiant	Targed 2017/18	Gwirioneddol 2017/18	Sylwebaeth	Targed 2016/17	Gwirioneddol 2016/17
<p><b>Cynnal a gwella mynediad at gefn gwlad; arfer gorau mewn arolygon llwybrau ucheldir ac iseldir, rheoli ac adfer</b></p> <p>Comisiynu a gweithredu prosiectau cyfalaf a ariannwyd gan gyllid grant oddi wrth Lywodraeth Cymru: gwelliannau mynediad yn Llyn y Fan Fach a'r Mynydd Du, gwelliannau tirwedd ym Mhont ar Daf a pheiriannau talu ac arddangos wedi'u moderneiddio mewn canolfannau</p>	<p>3:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>- Gwelliannau mynediad</li> <li>- Gwelliannau tirwedd</li> <li>- Peiriannau talu ac arddangos wedi'u moderneiddio</li> </ul>	2	<p>Gwelliannau mynediad a pheiriannau talu ac arddangos wedi'u moderneiddio wedi'u cwblhau</p> <p><b>Gwelliannau tirwedd:</b></p> <p>Rhodddwyd caniatâd cynllunio i'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol ar gyfer maes parcio newydd ym Mhont ar Daf. Dylai alluogi datblygu prosiect drwy ddefnyddio'r arian hwn yn ystod 2018–19.</p>	<p>Gwnaed cynnydd o ran gwelliannau tirwedd / mynediad ym Mhont ar Daf a Llyn y Fan Fach; peiriannau talu ac arddangos newydd mewn canolfannau ymwelwyr; rheoli traffig ym Mhontneddfec han; prosiectau adfer ucheldir ar y Mynydd Du (Sir Fynwy / Sir Frycheiniog)</p>	<p>Wedi gwneud cynnydd neu wedi'i gwblhau</p>

Yr hyn y gwnaethom geisio ei gyflawni		Yr hyn a gyflawnwyd gennym			
Amcan/Cam gweithredu llesiant	Targed 2017/18	Gwirioneddol 2017/18	Sylwebaeth	Targed 2016/17	Gwirioneddol 2016/17
Dechrau adolygiad o <b>Gynllun Gwella Hawliau Tramwy</b> a datblygu cynllun rheoli mynediad integredig	2: - Adolygiad o Gynllun Gwella Hawliau Tramwy wedi dechrau - Datblygu cynllun rheoli mynediad integredig	2	Adolygiad cychwynnol o Gynllun Gwella Hawliau Tramwy, gan ddarparu argymhellion ar gyfer Cynllun Gwella Hawliau Tramwy diwygiedig; asesiadau hawliau tramwy a holiaduron i'r cyhoedd wedi'u cwblhau a'u crynhoi hefyd. Popeth i'r Fforwm Mynediad Lleol ar gyfer sylwadau. Bydd adroddiad yn cael ei ddarparu i'r Awdurdod Parc Cenedlaethol.	Cwblhau pedwar prosiect Cynllun Gwella Hawliau Tramwy a gwneud cynnydd ar adolygiad o gyllid hawliau tramwy	Pob prosiect Cynllun Gwella Hawliau Tramwy wedi'i gwblhau a gwnaed cynnydd ar yr adolygiad o gyllid hawliau tramwy

### 3.3 Cymunedau Cydnerth

Gall cymunedau cryf o fewn y Parc Cenedlaethol a gweithgareddau corfforol hygyrch i gymunedau y tu allan i'r parc wella teimladau o lesiant, lleihau straen a bod yn ysbrydoledig. Trwy hyrwyddo gweithgareddau, annog gwirfoddolwyr a chefnogi'r rhai hynny â chyfyngiadau corfforol, economaidd neu gyfyngiadau eraill, mae'r amcan hwn yn cyfrannu'n uniongyrchol at **'Gymru o gymunedau cydlynus', 'Cymru iachach' a 'Chymru sy'n fwy cyfartal'**.

Yr hyn y gwnaethom geisio ei gyflawni		Yr hyn a gyflawnwyd gennym			
Amcan/Cam gweithredu llesiant	Targed 2017/18	Gwirioneddol 2017/18	Sylwebaeth	Targed 2016/17	Gwirioneddol 2016/17
<p>Cynnal a gwella <b>mynediad i gefn gwlad</b>; arfer gorau mewn arolygon llwybrau ucheldiroedd ac iseldiroedd, rheoli ac adfer:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>- Cytuno ar Gytundebau Dirprwyo Hawliau Tramwy diwygiedig gyda'r chwe awdurdod unedol.</li> <li>- Defnyddio grant Cynllun Gwella Hawliau Tramwy 2017 i gyflawni o leiaf pedwar o brosiectau'r Cynllun Gwella Hawliau Tramwy.</li> </ul>	<p>2: <b>Dirprwyo'r Cynllun Gwella Hawliau Tramwy 4 o brosiectau'r Cynllun Gwella Hawliau Tramwy</b></p>	<p>2 (gwelliant ychwanegol i'r llwybrau uwchlaw'r targed a nodwyd)</p>	<p><b>Dirprwyo'r Cynllun Gwella Hawliau Tramwy:</b> pan ysgrifennwyd hwn, roedd pedwar o'r pum Cytundeb Dirprwyo Hawliau Tramwy wedi'u harwyddo a'u cyfreithloni, a'r un ar gyfer Cyngor Sir Caerfyrddin yn cael ei gwblhau gan y cyfreithwyr ar y pryd.</p> <p><b>4 o brosiectau'r Cynllun Gwella Hawliau Tramwy:</b> Holl brosiectau'r Cynllun Gwella Hawliau Tramwy wedi'u cwblhau. Yn ogystal, aeth y Swyddog Prosiectau Cefn Gwlad a Mynediad ym mhell uwchlaw'r 'targed tîm' o wella 2,000m o lwybrau ucheldir, gan gwblhau mwy na 4,000m; ariannwyd rhai trwy grantiau Llywodraeth Cymru, rhai trwy grantiau Cynlluniau Gwella Hawliau Tramwy, a rhai trwy Gynllun Rheoli Cynaliadwy Partneriaeth Defnydd Tir y Mynydd Du (Sir Fynwy / Sir Frycheiniog).</p>	<p>Cwblhau pedwar o brosiectau'r Cynllun Gwella Hawliau Tramwy a datblygu'r Adolygiad Cyllid o Hawliau Tramwy</p>	<p>Holl brosiectau'r Cynllun Gwella Hawliau Tramwy a'r Adolygiad Cyllid o Hawliau Tramwy wedi'u datblygu</p>



Yr hyn y gwnaethom geisio ei gyflawni		Yr hyn a gyflawnwyd gennym			
Amcan/Cam gweithredu llesiant	Targed 2017/18	Gwirioneddol 2017/18	Sylwebaeth	Targed 2016/17	Gwirioneddol 2016/17
Byddwn yn darparu cyfleoedd i grwpiau difreintiedig i ymweld â'r parc drwy'r <b>rhaglen Chwarae Teg</b> (chwe grŵp y flwyddyn o ysgolion lle y mae 20% neu ragor o'r disgyblion yn cael prydau ysgol am ddim)	6	11	11 o ysgolion wedi trefnu ymweliadau cyn mis Mawrth. Mae rhai costau teithio wedi bod yn llai na'r disgwyl, felly gellir derbyn un grŵp arall.	6	9
Byddwn yn darparu'r Gronfa Datblygu Cynaliadwy i gefnogi cydnerthedd cymunedol, gan ddenu cyllid cyfatebol ar gymhareb o fwy na 2:1 (£cyllid cyfatebol:£Cronfa Datblygu Cynaliadwy)	02:01	2.54:1	Wedi mynd uwchlaw'r gymhareb. Roedd y cyllid cyfatebol a ddarparwyd ar gymhareb o 1.04: 1 cyllid preifat i gyllid cyhoeddus, gan ddangos bod prosiectau'n denu ychydig mwy o gyllid preifat na chyllid cyhoeddus. Defnyddiwyd y Gronfa Datblygu Cynaliadwy hefyd fel cyllid sbarduno ar gyfer prosiectau, e.e. denodd Marchnad yd Crucywel £700 mil trwy gyfrandaliadau cymunedol ar ben buddsoddiad o £21 mil gan y Gronfa Datblygu Cynaliadwy am gydgylltydd.	02:01	07:01
Byddwn yn darparu rhaglen Datblygu Gwirfoddolwyr i gefnogi'r gwaith o gyflawni mwy na 10,000 o oriau gwirfoddol o weithgareddau gan Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog yn ystod 2017/18.	10,000	8,567.50	Llai o oriau oherwydd y canlynol: Swyddog Datblygu Gwirfoddolwyr wedi newid ddwywaith yn ystod y flwyddyn (bylchau cysylltiedig â recriwtio/ymsefydlu) Cyfnod hir o eira yn ystod y gaeaf a oedd yn cyfyngu'r cyfleoedd am weithgareddau ymarferol	10,000	14,275
Byddwn yn gweithio gyda phedair cymuned i ddatblygu a chyflawni Cynlluniau Lleoedd a chamau gweithredu â nhw	4	4	Gwaith wedi'i gwblhau ac yn parhau yng Nghrucywel a'r Gelli Aberhonddu a Thalgarth wedi'u datblygu'n sylweddol (y ddwy ardal wrthi'n paratoi arolwg trigolion)	4	5

Yr hyn y gwnaethom geisio ei gyflawni		Yr hyn a gyflawnwyd gennym			
Amcan/Cam gweithredu llesiant	Targed 2017/18	Gwirioneddol 2017/18	Sylwebaeth	Targed 2016/17	Gwirioneddol 2016/17
Byddwn yn cyflawni camau gweithredu iechyd a llesiant yn unol â Datganiad Sefyllfa Iechyd a Llesiant Parciau Cenedlaethol Cymru	4 - Heneiddio Gweithredol - Geogelcio (gweler isod) - Amgylchedd Ysbrydoledig (gweler isod) - Datganiad Sefyllfa Iechyd a Llesiant	4	Mae'r camau gweithredu iechyd a llesiant a gyflawnwyd yn cynnwys y canlynol: a. Diwrnod Heneiddio Gweithredol i fwy nag 80 o gyfranogwyr gyda Gofal a Thrwisio Cymru a Freedom Leisure b. Wedi cyflawni prosiect geogelcio c. Rhaglen Amgylchedd Ysbrydoledig ch. Wedi cynhyrchu datganiad sefyllfa diwygiedig ar iechyd a llesiant	Amherthnasol	Amherthnasol
Byddwn yn cyflawni'r Rhaglen Amgylchedd Ysbrydoledig trwy weithio gyda phartneriaid, er mwyn galluogi grwpiau na chânt eu cynnwys yn gymdeithasol i gyflawni eu hamcanion trwy ddefnyddio'r Parc Cenedlaethol (deg grŵp)	10	17	Yn ystod 2017/18, cyflwynwyd y rhaglen Amgylchedd Ysbrydoledig i Ofalwyr Sir Fynwy, Rhoi Pobl yn Gyntaf Caerdydd (11 dyddiad), Tai Calon (Blaenau Gwent), Gwalia, Tai Merthyr, Mind, Cymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Gwent. Cyfanswm y cyfranogwyr: 247	Amherthnasol	Amherthnasol
Byddwn yn cyflawni'r prosiect geogelcio (a ariennir gan Chwaraeon Cymru) er mwyn galluogi pobl ifanc mewn tlodi i ddefnyddio'r Parc Cenedlaethol i ddatblygu ffyrdd o fyw mwy egniol (300 o bobl ifanc, 30 o arweinwyr grŵp wedi'u hyfforddi)	300 o bobl ifanc 30 o arweinwyr grŵp	410 o bobl ifanc 77 o arweinwyr grŵp	Wedi mynd uwchlaw'r targed, gyda diddordeb sylweddol gan arweinwyr grŵp yn ystod blwyddyn olaf y prosiect, wedi eu hyfforddi i barhau i geogelcio gyda'u grwpiau ieuencid ar ôl i'r prosiect ddod i ben	300 o bobl ifanc 30 o arweinwyr grŵp	304 o bobl ifanc 54 o hyfforddwyr

Yr hyn y gwnaethom geisio ei gyflawni		Yr hyn a gyflawnwyd gennym			
Amcan/Cam gweithredu llesiant	Targed 2017/18	Gwirioneddol 2017/18	Sylwebaeth	Targed 2016/17	Gwirioneddol 2016/17
Byddwn yn parhau i ddatblygu ein cynhyrchion twristiaeth gweithgareddau i gyd-fynd ag anghenion y farchnad, cyfleoedd busnes a chyfyngiadau amgylcheddol. Bydd llyfr â chyswllt i'r we sy'n nodi teithiau cerdded byr sy'n gysylltiedig â chwedlau lleol yn cael ei lansio yng Ngŵyl y Gelli.	Paratoi a lansio'r llyfr chwedlau	Wedi lansio'r llyfr	Mae twristiaeth gweithgareddau'n parhau i gael ei hybu a chaiff busnesau eu hyfforddi yn y maes gwaith hwn. Lansiodd y llyfr chwedlau gan y Gweinidog Diwylliant, Twristiaeth a Chwaraeon yng Ngŵyl y Gelli ym mis Mai 2017.	Amherthnasol	Amherthnasol
Byddwn yn gweithio gyda thair cymuned â diddordeb y flwyddyn i ddarparu dehongliad o'r gwaith rheoli adnoddau yn y Parc Cenedlaethol	3	3	Wedi'i gyflawni trwy brosiectau'r Gwaith Powdr Gwn	3	5
Byddwn yn cynorthwyo pedair ysgol i ennill y wobwr Ysgolion Llysgenhadol	4	3	Byddwn yn parhau i weithio gydag ysgolion, gyda chyfyngiadau sylweddol ar adnoddau. Rydym wedi gwobrwyo tair ysgol y flwyddyn ariannol hon a byddwn yn gwobrwyo'r bedwaredd ysgol a dargedwyd yn unol â'r flwyddyn ysgol/academaidd.	4	5
Byddwn yn cefnogi 50 o brosiectau cydnerthedd cymunedol gyda chyllid a chyngor a chymorth swyddog datblygu	50	71	Gwaith parhaus gydag ysgolion. Cyd-fynd â'r flwyddyn ysgol yn hytrach na'r flwyddyn ariannol.	50	80

### 3.4 Datblygu Economaidd Cynaliadwy

Mae datblygu economaidd cynaliadwy'n cyfrannu'n uniongyrchol at '**Gymru ffyniannus**' a '**Chymru gydnerth**' drwy annog datblygiad busnesau newydd a chyfredol a chynyddu nifer y swyddi, gan annog pobl i beidio â defnyddio'r adnoddau naturiol mewn modd anghynaliadwy. Dylai mwy o gyflogaeth gefnogi '**Cymru sy'n fwy cyfartal**' a '**Chymru iachach**'.

Yr hyn y gwnaethom geisio ei gyflawni		Yr hyn a gyflawnwyd gennym			
Amcan/Cam gweithredu llesiant	Targed 2017/18	Gwirionedd ol 2017/18	Sylwebaeth	Targed 2016/17	Gwirionedd ol 2016/17
Byddwn yn darparu 12,500 o oriau o ddysgu i gyfranogwyr (5,000 o ddysgwyr x 2.5 awr)	12,500 o oriau	23,075	Mae'r cynnydd mewn oriau cyfranogwyr o ganlyniad i ymdrechion i annog ysgolion i ymweld am ddiwrnod cyfan yn hytrach na hanner diwrnod.	12,500	27,628
Byddwn yn parhau i gynnal y lefel o weithgarwch o fewn Geoparc Byd-eang UNESCO, ein rhaglen lysgenhadol, ein digwyddiadau hyfforddi busnes a'n gwaith ymgysylltu â busnesau trwy gadw o leiaf 150 o lysgenhadon, cynnal mwy na 15 o ddiwrnodau hyfforddiant sy'n canolbwyntio ar fusnes, ac ymgysylltu'n uniongyrchol â mwy na 500 o gysylltiadau busnes a chymunedol yn ystod y flwyddyn.	150 o lysgenhadon 15 o ddiwrnodau hyfforddiant busnes Wedi ymgysylltu â 500 o gysylltiadau busnes a chymunedol	193 o lysgenhadon Cyfres lawn o gyrsiau hyfforddiant busnes wedi'i chwblhau, gan gynnwys 277 o bobl sydd wedi derbyn hyfforddiant busnes neu wedi mynychu cynadleddau ac wedi cael dros 800 o gysylltiadau busnes/cymunedol	Mae ein Geoparc Byd-eang UNESCO yn parhau i fod yn weithgar iawn, yn enwedig gyda dechreuad prosiect Geoparciau'r Iwerydd Interreg, sy'n cyflogi 1.2 o swyddogion cyfwerth ag amser llawn ar brosiect marchnata ar gyfer yr ardal.	150 o lysgenhadon 22 o ddiwyddiadau hyfforddi (busnes) Ymgysylltu â 500 o fusnesau	193 25 683

Yr hyn y gwnaethom geisio ei gyflawni		Yr hyn a gyflawnwyd gennym			
Amcan/Cam gweithredu llesiant	Targed 2017/18	Gwirionedd ol 2017/18	Sylwebaeth	Targed 2016/17	Gwirionedd ol 2016/17
Byddwn yn datblygu Craig y Nos fel canolfan newydd i Geoparc Byd-eang UNESCO ac yn cefnogi o leiaf pum cymuned leol gyda'u gwaith ar gyfer y geoparc	Datblygu canolfan	Wedi'i oedi	Mae'r gwaith ar y ganolfan geoparc wedi'i oedi'n bennaf oherwydd ffactorau ar y safle y tu allan i reolaeth y tîm hwn, ond mae'r rhain wedi'u datrys ac mae'r prosiect bellach ar y trywydd cywir i gael ei gwblhau erbyn mis Mawrth 2019. Mae chwe chymuned wedi'u cefnogi fel rhan o waith y geoparc.	Amherthnasol	Amherthnasol
Byddwn yn cynnal ac yn gwella ein dynodiad Awyr Dywyll trwy gynnal chwe digwyddiad Awyr Dywyll i wella dealltwriaeth a mwynhad pobl o awyr y nos	6	6	Gwnaethom gynnal chwe digwyddiad yn 2017/18 a fynychwyd gan 493 o gyfranogwyr	Amherthnasol (mesur newydd ar gyfer Cynllun Corfforaethol 17/18)	Amherthnasol
Byddwn yn cymryd rôl arweiniol yn y gwaith o gyflawni prosiect hyfforddiant Sgiliau wrth Waith Cronfa Dreftadaeth y Loteri, a fydd yn darparu 12 o hyfforddiaethau – gyda chwech ohonynt yn Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog.	12 o hyfforddiaethau	12 wedi'u cwblhau	Cwblhawyd y 12 hyfforddeiaeth arfaethedig mewn Sgiliau wrth Waith yn llwyddiannus, gyda phawb yn ennill Diplomâu Lefel 2 mewn Rheoli Cadwraeth. Yn ogystal, cytunwyd ar estyniad gyda Chronfa Dreftadaeth y Loteri, a dechreuodd chwe hyfforddeiaeth bellach yn y trydydd chwarter – tri o'r rhain yn Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog.	11	12
Byddwn yn chwilio am gyllid trwy nodi prosiectau mawr y mae'r awdurdod wedi'u blaenoriaethu fel nodau strategol allweddol a chyflwyno o leiaf tri chais cyllido	3	14	<b>Cymunedau cydnerth:</b> 1. Chwaraeon Cymru (aros canlyniad) ar gyfer prosiect Heneiddio Gweithredol i gefnogi iechyd a llesiant a chymunedau cydnerth 2. Prosiect Camau Bach Llywodraeth Cymru – ymchwil weithredol – iechyd meddwl – wedi'i gymeradwyo a bydd yn dechrau yn nhrydydd chwarter 2018/19	Amherthnasol – nid oes unrhyw fesur i adrodd yn ei erbyn, er bod nifer o geisiadau cyllido wedi'u	Amherthnasol

Yr hyn y gwnaethom geisio ei gyflawni		Yr hyn a gyflawnwyd gennym			
Amcan/Cam gweithredu llesiant	Targed 2017/18	Gwirionedd ol 2017/18	Sylwebaeth	Targed 2016/17	Gwirionedd ol 2016/17
			<p><b>Tirweddau a bioamrywiaeth</b></p> <p>3. Datganiadau o ddiddordeb i brosiect Arwain Powys</p> <p>4. Datganiadau o ddiddordeb i'r Gronfa Datblygu Cynaliadwy (Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog)</p> <p><b>Datblygu economaidd cynaliadwy</b></p> <p>5. Prosiect defaid a thwristiaeth ABC – Rhaglen Datblygu Rhanbarthol £300,000 (Ilwyddiannus yn ystod y cam datganiad o ddiddordeb)</p> <p>6. Blwyddyn Darganfod – Croeso Cymru £100,000 (aflwyddiannus)</p> <p>7. Rheoli ymwelwyr – Llywodraeth Cymru £80,000 (Ilwyddiannus)</p> <p>8. Cynllun maes parcio Gwlad y Sgydau – Llywodraeth Cymru £25,000 (Ilwyddiannus)</p> <p>9. Prosiect Geoparciau'r Iwerydd – Interreg £150,000 (Ilwyddiannus)</p> <p>10. Canolfan Polisi Gwledig – H2020 £300,000 fel partneriaeth (aflwyddiannus)</p> <p>11. Rheoli ymwelwyr – H2020 £250,000 (aflwyddiannus)</p> <p>12. Cŵn yng nghefn gwlad – Cyfoeth Naturiol Cymru £25,000 (aflwyddiannus)</p> <p>13. Lawr i'r Môr – Croeso Cymru £40,000 (Ilwyddiannus)</p> <p>14. Ffordd Cymru – Croeso Cymru £160,000 (Ilwyddiannus)</p>	cyflwyno'n llwyddiannus	

Yr hyn y gwnaethom geisio ei gyflawni		Yr hyn a gyflawnwyd gennym			
Amcan/Cam gweithredu llesiant	Targed 2017/18	Gwirionedd ol 2017/18	Sylwebaeth	Targed 2016/17	Gwirionedd ol 2016/17
Byddwn yn gosod microsystem ddŵr ar Afon Clydach erbyn diwedd mis Medi 2017	Gosod microsystem ddŵr	Wedi'i gosod	Wedi'i gosod ac ar waith	Amherthnasol	Amherthnasol
Byddwn yn cyflawni masnachfaint ystafelloedd te yng Nghanolfan Ymwelwyr y Parc Cenedlaethol, gan gyflawni model sy'n gynaliadwy'n ariannol trwy gyflawni'r ganolfan am ddim cost.	Cyflawni masnachfaint ystafelloedd te	Wedi'i gyflawni		Amherthnasol	Amherthnasol

#### 4. Casgliad

- 4.1. Rydym wedi parhau i wneud cynnydd da ym mhob un o'r pedwar maes gwaith allweddol.
- 4.2. Mae unrhyw broblemau sydd wedi codi gyda'r gwaith cyflawni wedi bod yn gymharol fach ac o fewn ffiniau arferol gweithgarwch gweithredol. Mae hyn wedi ein galluogi i ymdrin â nhw gan ddefnyddio rheolaethau rheoli confensiynol megis ail-flaenoriaethu neu ailddyrrannu adnoddau.
- 4.3. Hon yw'r ail flwyddyn y mae'r awdurdod wedi cyhoeddi Adroddiad Blynyddol yn hytrach na Rhan 2 ei Gynllun Gwella Busnes. Mae'r adroddiad cyfredol hwn yn ymddwyn fel trefniant pontio tuag at ffordd newydd o adrodd ar weithgareddau'r awdurdod. Mae wedi'i fframio o fewn strategaeth gyffredinol Cynllun Rheoli'r Parc Cenedlaethol gyda'r nod o gyflawni nodau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, fel y dangosir yn atodiadau'r Cynllun Corfforaethol, trwy weithio'n unol â'r egwyddorion datblygu cynaliadwy.

#### **Datganiad o gyfrifoldeb**

Mae Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog yn gyfrifol am baratoi'r Cynllun Corfforaethol a'r Adroddiad Blynyddol yn erbyn y Cynllun Corfforaethol, yr wybodaeth a'r asesiadau sydd wedi'u gosod o'i fewn, a'r amcangyfrifon y maent yn seiliedig arnynt.

Mae'r awdurdod hefyd yn gyfrifol am reoli ei welliannau perfformiad a'r mesurau rheoli mewnol y mae'r wybodaeth a'r asesiad yn y cynllun hwn wedi'u cynhyrchu ohonynt. Mae'r awdurdod yn fodlon bod cynnwys y cynllun yn gywir ac yn gyflawn ym mhob ffordd berthnasol, ac yn realistig a chyraeddadwy o fewn yr adnoddau sydd ar gael.



## Atodiad A – Meincnodi Parciau Cenedlaethol Cymru

Mesurau	Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog	Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro	Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri	Sylwadau
% gwariant yr awdurdod yn lleol	Amherthnasol	53.78	Amherthnasol	
% yr anfonebau a dalwyd ar amser	95%	97.16	97.93%	
% y ceisiadau cynllunio a bennwyd o fewn y cyfnodau amser gofynnol	96%	84.91	74.7%	
Amser a gymerwyd ar gyfartaledd i bennu'r holl geisiadau cynllunio mewn diwrnodau	68	70.75	82	
% y ceisiadau cynllunio a gymeradwywyd	95%	85.11	90.8%	
% y ceisiadau cynllunio a bennwyd o dan bwerau dirprwyedig	98%	92.07	96.3	
% yr aelodau a wnaeth benderfyniadau yn erbyn cyngor y swyddog (argymhelliad)	0%	4.88	17.6%	
% yr apeliadau a ddiystyriwyd	86%	63.64	57%	
Ceisiadau am gostau mewn apêl Adran 78 a gefnogwyd yn ystod y cyfnod adrodd	0	2	0	

Mesurau	Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog	Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro	Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri	Sylwadau
% yr achosion gorfodi yr ymchwiliwyd iddynt (o fewn 84 o ddiwrnodau)	82%	60.12	93.2	Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro – Mae'r ffigurau gorfodi wedi'u heffeithio gan fod y pwyslais wedi bod ar gael gwared â'r ôl-groniad o achosion gorfodi hanesyddol yn y pedwerydd chwarter
Amser a gymerwyd ar gyfartaledd i ymchwilio i achosion gorfodi mewn diwrnodau	50	234	33.5	
Amser a gymerwyd ar gyfartaledd i gymryd camau gorfodi mewn diwrnodau	320	334.5	Amherthnasol	
# yr unedau tai fforddiadwy a gymeradwywyd	9	9	9	
Digwyddiadau Awyr Dywyll a gynhaliwyd	6	27	Amherthnasol	
# y cyfranogwyr mewn digwyddiadau Awyr Dywyll a gynhaliwyd gan yr awdurdod	493	368	Amherthnasol	

Mesurau	Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog	Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro	Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri	Sylwadau
% yr hawliau tramwy cyhoeddus sydd ar agor ac yn hygyrch ac sy'n bodloni'r safonau ansawdd	Parhau i gynnal arolwg	86.31	Amherthnasol	
# y pryderon am safonau hawliau tramwy cyhoeddus	573*	260	160	*gan dybio ei fod yn golygu "nifer yr adroddiadau/cwynion a ddaeth i law ynghylch y rhwydwaith hawliau tramwy", derbyniwyd 573 o'r rhain. Fodd bynnag, mae hyn yn cynnwys adroddiadau mae'r staff wedi'u cyflwyno, e.e. trwy arolygon hawliau tramwy, arolygon pontydd, ac mae hefyd yn cynnwys gwaith rhagataliol mae'r staff wedi'i wneud, e.e. clirio llystyfiant
# y ceisiadau am waith ar goedydd gwarchoddedig a bennwyd	15	57	Amherthnasol	
# y gorchmynion cadw a gyflwynwyd ar goed newydd	1	3	0	
# y diwrnodau gwirfoddol	1,428 (cyfanswm yr oriau / 6)	2155.89	1,466	
# y cyfranogwyr a gymerodd ran mewn digwyddiadau a gweithgareddau corfforol egniol	Amherthnasol	20,729	Amherthnasol	

Mesurau	Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog	Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro	Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri	Sylwadau
# y cyfranogwyr a gymerodd ran mewn teithiau cerdded dan arweiniad parcmyr, staff canolfan a gwirfoddolwyr	Amherthnasol	2,853	Amherthnasol	
# y bobl a gymerodd ran trwy weithgareddau cynhwysiant cymdeithasol	Amherthnasol	2,356	33	
# y cyfranogwyr a gymerodd ran trwy waith cynhwysiant cymdeithasol gyda phobl ifanc	Amherthnasol	438	Amherthnasol	
% yr adeiladau mewn perygl	9	5.5	16%	
# y cyfranogwyr mewn gweithgareddau a digwyddiadau hanesyddol	757*	11,284	Amherthnasol	*Digwyddiadau'r Gwaith Powdr Gwn
# y plant ysgol yr ymgysylltwyd â nhw drwy raglen addysg	6,596	10,448	6,924	
Sgôr adborth cyffredinol ysgolion (1-11)	10	9.9	10.83	
Sgôr adborth cyffredinol y cyhoedd (1-11)	10	10.2	Amherthnasol	
% yr aelodau a fynychodd	Amherthnasol*	78.88	79.7%	Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog – caiff presenoldeb aelodau mewn cyfarfodydd

Mesurau	Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog	Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro	Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri	Sylwadau
				pwyllgor ei gasglu fesul calendr – gweler y troedyn isod <sup>1</sup>
% yr aelodau a hyfforddwyd	75%	63.78	82.5%	
% o sylw cyfryngol cadarnhaol/niwtral	Amherthnasol	99.45	Amherthnasol	
Nifer y diwrnodau/sifftiau gwaith fesul cyflogeion cyfwerth ag amser llawn yr awdurdod a gollwyd oherwydd absenoldeb salwch	12.23	5.83	7.2	
lechyd a diogelwch – # y Rheoliadau Adrodd ar Anafiadau, Clefydau neu Ddigwyddiadau Peryglus	1	0	0	
lechyd a diogelwch – # y damweiniau (anafiadau) a achosodd fwy na thri diwrnod / hyd at saith niwrnod o absenoldeb	1	0	0	
lechyd a diogelwch – # y mân ddamweiniau (anafiadau)	13	22	5	

<sup>1</sup> <http://modgov.breconbeacons.org/ecSDDisplay.aspx?NAME=SD3779&ID=3779&RPID=1197194>  
<http://modgov.breconbeacons.org/documents/s33520/Member%20Attendance%202017.pdf>

Mesurau	Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog	Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro	Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri	Sylwadau
Iechyd a diogelwch – # y cerbydau y difrodwyd	4	12	0	
Iechyd a diogelwch – # y Rheoliadau Adrodd ar Anafiadau, Clefydau neu Ddigwyddiadau Peryglus – digwyddiadau o wrthdaro	0	1	0	
Iechyd a diogelwch – # diogelu	Amherthnasol	0	0	
# y cwynion i Gomisiynydd y Gymraeg o ran methiant honedig i gydymffurfio â safonau'r Gymraeg	0	1	1	
Canran y cyflogeion sy'n gadael cyflogaeth yr awdurdod, boed hynny o'u gwirfodd neu fel arall	8%*		5.2%	*heb gynnwys hyfforddedigion